# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **2 Hydref 2025** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Blynyddol Craffu 2024-25** |
| **Aelod:** | **Y Cynghorydd Beth Lawton, Cadeirydd y Fforwm Craffu ar gyfer 2024-25** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol)** |

### Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn yr adroddiad.

### CEFNDIR A RHESYMEG

1. Yn unol â'r cyfansoddiad, fe gyflwynir adroddiad i gyfarfod o'r Cyngor yn ymhelaethu ar y gwaith craffu a wnaed yn ystod y flwyddyn.

2. Mae'n arferiad i gyflwyno'r adroddiad blynyddol i'r Cyngor Llawn yng nghyfarfod mis Gorffennaf. Eleni rhoddwyd blaenoriaeth i gynnal ymchwiliad craffu a grŵp tasg a gorffen. Felly, nid oedd adnoddau staffio yn caniatáu llunio'r adroddiad o fewn amserlen gynharach. Credir bod blaenoriaethu adnoddau i gyflawni'r gwaith yma yn angenrheidiol gan mai drwy'r gwaith craffu y gwneir gwahaniaeth.

3. Mae'r adroddiad sydd yn rhoi trosolwg o'r gwaith craffu a wnaed yn ystod 2024-25, wedi ei rannu o dan y penawdau yma:
    - Gweithdai Craffu
    - Fforwm Craffu
    - Pwyllgorau Craffu
    - Ymchwiliad Craffu
    - Datblygiadau 2024-25
    - Trefniadau Tracio
    - Herio Perfformiad
    - Hyfforddiant
    - Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2024/25

4. Pwrpas craffu yng Ngwynedd yw 'Cyfrannu at yrru gwelliant mewn gwasanaethau i bobl Gwynedd'. Amlygir yn yr adroddiad blynyddol effaith y gwaith craffu wrth gyflawni yn unol â'r pwrpas.

5. Crëwyd fersiwn cryno o'r adroddiad gyda'r bwriad iddo gyflwyno gwaith craffu 2024-25, mewn modd hawdd i'w ddarllen a chryno.

**ATODIADAU:**

Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol Craffu 2024-25
Atodiad 2 – Fersiwn Cryno

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

Trafodwyd cynnwys posib yr Adroddiad Blynyddol yng nghyfarfod y Fforwm Craffu ar 30 Ebrill 2025. Rhannwyd yr adroddiad drafft gydag aelodau Fforwm Craffu 2024/25 i dderbyn eu sylwadau.

**SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Mae'r pwyllgorau trosolwg a chraffu yn rhan greiddiol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ystod y gwaith mae'r pwyllgorau yn ei gyflawni a hefyd yn cadw trosolwg o waith y Cabinet. Rwy'n fodlon fod yr hyn a gyflwynir yn dangos fod y rôl yma yn cael ei chyfarch yn briodol.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwyf yn fodlon nad yw'r adroddiad yn creu ymrwymiad gwariant ychwanegol. Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir.